

Cylchlythyr Y Pasg 2010



Croeso i Gylchlythyr Menter Iaith Sir Ddinbych

Croeso i rifyn Y Pasg o Gylchlythyr Menter Iaith Sir Ddinbych.
Dyma uchafbwyntiau'r misoedd diwethaf.



Taith Sali Mali a Sam Tân, TWF a Menter Iaith Sir Ddinbych

Cafwyd tridiau gwych o ymgyrchu er mwyn hyrwyddo addysg cyfrwng Gymraeg yn gynnar ym mis Chwefror. Ymwelodd y Fenter â llyfrgelloedd Y Rhyl, Llanelwy a Dinbych, Cylchoedd Ti a Fi yn Y Rhyl, Dyserth, Dinbych a Phwllglas, a meithrinfeydd preifat ym Mhrestatyn a Llanfair Dyffryn Clwyd. Cafwyd sesiynau Stori a Chân yng nghwmni yr artistiaid adnabyddus Siân Meirion a Siân Beca yn ogystal â'r cyfle i ddawnsio a thynnu llun gyda Sam Tan a Sali Mali. Roedd y plant wrth eu boddau a dosbarthwyd gwybodaeth a Chryno Ddisg Caneuon Martin Geraint i rieni.



Gweithdai Ysgol Glan Clwyd

Erbyn hyn mae nifer o weithdai cyffrous wedi eu cynnal ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 a'r Chwched Dosbarth yn Ysgol Glan Clwyd. Cafwyd Gweithdy Dawns dan arweiniad Non Jones Swyddog Datblygu Celfyddydau'r Urdd ar 9fed Chwefror. Wedyn, cynhaliwyd gweithdy drymio gyda Deian Elfryn, artist sydd wedi ymddangos ar lwyfannau Gwyliau Roc a Pop enwocaf, megis Glastonbury. Cafodd y grŵp hefyd gyfle i ddysgu am dechnegau creu ffilm animeiddio fer gyda Deiniol Morris, cynhyrchydd y gyfres Gogs ar 23ain Mawrth. Mae'r gweithdai hyn wedi dysgu sgiliau newydd i ddisgyblion yr ysgol ac wedi rhoi cyfle iddynt ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i oriau ysgol. Dywedodd un o'r disgyblion "Mi wnes i fwynhau yn fawr iawn, a darganfod bod animeiddio yn hawdd a'i fod yn hawdd creu cymeriadau"



Gŵyl Dydd Gŵyl Ddewi

Cafwyd diwrnod llawn o weithgareddau ar Sgwâr Dinbych ar Ddydd Sadwrn, Chwefror 27ain, er mwyn dathlu Gŵyl ein nawdd sant - gydag amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnal, megis sesiwn “ beat bocsio “ yn y Gymraeg gyda Ed Holden a sesiwn dawnsio gwerin gan Ddawnsyrwyr Delyn. Roedd rhywbeth at ddant pawb, a chefnogodd y busnesau lleol yr achlysur drwy addurno eu ffenestri siopiau gyda baneri Cymru, cennin pedr a balŵns.

Gŵyl Fwyd

Cafwyd noson lwyddiannus ym Melin Brwcws gydag oddeutu 60 o bobl yn mynychu'r digwyddiad yma i ddathlu'r gorau o gynnyrch lleol. Diolchiadau mawr i'r pedwar cwmni bwyd a Grŵp Busnes Dinbych am fynychu'r noson. Roedd pawb wrth eu bodd gyda Chyffug “fudge” Uncle Peter a selsig Mochyn Merllyn, a chafwyd gwledd ychwanegol gyda “Enfys”, grŵp o gantorion talentog ifanc yn diddanu'r gynulleidfa. Oherwydd llwyddiant ysgubol y noson gobeithir cynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf. Felly bydd cyfle arall i'r rhai ohonoch a fethodd y digwyddiad eleni gael blas ar y gorau o gynnyrch Dyffryn Clwyd. Diolch i Gadwyn Clwyd am drefnu'r noson ar y cyd gyda'r Fenter



Enfys yn perfformio ar y noson



Selsig blasus Mochyn Merllyn

Camp Chwaraeon

Cynhaliwyd Camp Chwaraeon yn Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl yr un pryd ag Eisteddfod Cylch yr Urdd a gynhaliwyd yno ar Ddydd Sadwrn 6ed Mawrth. Nod y gweithgaredd oedd rhoi cyfle i'r plant ymarfer a blasu ychydig o chwaraeon a gemau gwahanol - pan nad oedd oeddynt yn cystadlu ar y llwyfan . Tra bod y plant yn cael cyfle chwarae a mwynhau'r amrywiol chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg, megis Criced, Pêl droed, Rygbi ac Athletau , roedd swyddog Ieuenctid Fenter yn gallu cynnal sgwrs a rhieni ynglŷn â manteision dwyieithrwydd. Cafwyd adborth da gan y rhieni ac roedd y plant yn amlwg wrth eu bodd yn cael chwarae yn yr awyr iach.



Rasus Cyfnewid yn Ysgol Dewi Sant



Ed Holden ‘Beat Bocsio’

Newidiadau Staff

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych wedi ffarfwelio â dau aelod o staff yn y cyfnod diweddar hwn, sef Gwawr Cordiner a Cerian Ellis. Hoffai'r Fenter a'r Cyfarwyddwyr ddiolch i Gwawr am ei chyfraniad tra'n gweithredu fel Prif Swyddog rhan amser dros y chwe mis diwethaf. Hefyd rhaid diolch i Cerian am ei holl waith ar ran y Fenter dros y saith mlynedd ddiwethaf. Bydd colled fawr ar ei hôl a dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Llysfasi.

Yn sgîl hyn mae'r Fenter wedi penodi Prif Swyddog llawn amser sef Gill Stephen. Felly croeso mawr i Gill i'r Fenter. Bydd Gil yn cychwyn ar y Sed o Fai .

Mae'r Fenter wedi apwyntio Alun Jones, hefyd fel Swyddog Plant a Phobl Ifainc. Na, cyn i chi ddechrau poeni, nid yw Anne Lloyd wedi ein gadael. Swydd newydd yw hon ar gyfer ardaloedd Deheuol y Sir, gan fod Anne yn gweithredu yn benodol yn ardaloedd yn y gogledd gyda'r prosiect Cymorth. Bydd Alun yn cydweithio yn agos iawn gydag ysgolion cynradd ac uwchradd. Cysylltwch ag Alun os oes gennych unrhyw syniadau ynglŷn â phrosiect newydd ar gyfer plant a phobl ifainc.

Swyddog Plant a Phobl Ifainc

Aeth mudiadau RYAG a RAPA ar daith gerdded i Feddgelert yn ystod hanner tymor ym mis Chwefror. Cafodd y bobl ifainc gyfle i weld y bedd ac ymweld â Chanolfan Grefftau Coed Beddgelert. "Roedd y daith gerdded yn ffordd wych o ddysgu am hanes chwedloniaeth a threftadaeth Cymru," meddai Anne Lloyd, ein Swyddog Plant a Phobl Ifainc.

Hefyd cynhaliwyd gweithdy 'Beat Bocsio' dan arweiniad Ed Holden (Mr Phormiwl) yn Ysgol Uwchradd Dinbych gyda disgyblion blynyddoedd 7,8 a 9ar 4ydd Mawrth. Cafwyd ymateb gwych gan y plant gydag un disgybl yn mynegi ar ddiwedd y sesiwn, ' I wish I could speak fluently in Welsh'.

**ADEILAD DEIAMWNT
6 HEIGAD
DINBYCH
SIR DDINBYCH
LL16 3LE**

Manylion Cysylltu â'r Fenter

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, syniadau neu os ydych yn fodlon cyfrannu erthygl ar gyfer y dudalen Gymraeg yn y Free Press, neu os ydych yn dymuno gwneud gwaith gwirfoddol ar ran Menter Iaith Sir Ddinbych, peidiwch ag oedi. Cysylltwch â:-

Ffôn- 01745 812822

www.mentrauiaith-gogledd.com

Prif Swyddog – Gill Stephen

gillstephen@menteriaithdinbych.co.uk

Swyddog Datblygu - Gerallt Lyall

gerallt@menteriaithdinbych.co.uk

Swyddog Plant a Phobl Ifainc- Anne Lloyd

anne@menteriaithdinbych.co.uk

Swyddog Busnes - Iorwen Jones

iorwen@menteriaithdinbych.co.uk

Alun Jones - Swyddog Plant a Phobl Ifainc

alun@menteriaithdinbych.co.uk

**Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol gyda'n gilydd
Pasg Hapus!**



